# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 24AIN HYDREF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 14 Hydref 2022)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

### AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Elfed Williams |
| Gareth Tudor Jones | Linda Ann Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gwynfor Owen |
| Rheinallt Puw | Arwyn Herald Roberts |
| Huw Rowlands | Sedd wag |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Eryl Jones-Williams | Anwen J. Davies |
| John Brynmor Hughes | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27 Mehefin 2022 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 6 - 12

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:

a) 15 Gorffennaf 2022
b) 27 Mehefin 2022

## 6. UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI 13 - 25

I ystyried a chymeradwyo'r cynnig gan y diwydiant tacsi i godi'r uchafswm prisiau

## 7. ADOLYGIAD O FFIOEDD TRWYDDEDU SEFYDLIADAU RHYW 26 - 27

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo ffioedd ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**27-06-22**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Eryl Jones-Williams, Gareth Williams, Angela Russell, John Brynmor Hughes ac Anwen Davies

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Adran Gyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**PENDERFYNWYD AIL - ETHOL Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES YN GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Elfed Williams a'r Cynghorydd Gareth Williams

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alan Jones Evans

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 6ed Rhagfyr 2021 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd 22 Ebrill 22, 10 Mawrth 22, 25 Chwefror 22 a 25 Tach 21

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:20

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 15-07-2022**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Gareth Tudor Jones a Gareth Williams

**Swyddogion:** Sïon Huw (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Miss A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Miss A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd ag adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir yr arnodiadau ar y drwydded a'i hamgylchiadau personol. Cyfaddefodd nad oedd wedi cyflwyno manylion ei chyfeiriad newydd i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau nac o hysbysu'r Adran Drwyddedu am droseddau traffig difrifol - nododd ei bod ar y pryd yn symud tŷ ac yn cydnabod yr esgeulustod.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar ga yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn mis Ebrill 2020, derbyniodd yr ymgeisydd chwe phwynt cosb am fethu a rhoi gwybodaeth am hunaniaeth y gyrrwr.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae MS90 (methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr ac ati). Mae paragraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod y gollfarn o 2020 yn drosedd traffig difrifol i bwrpas y Polisi. Ystyriwyd methiant yr ymgeisydd i ddatgelu gwybodaeth yn unol â gofynion y

drwydded.  Derbyniwyd eglurhad yr ymgeisydd mai diffyg trefn oherwydd ei bod yn symud tŷ oedd y rheswm dros y methiant i ddarparu'r wybodaeth ar y pryd.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon fod mwy na'r amser a nodir yn y Polisi (6 mis o leiaf) lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o'r fath, wedi mynd heibio.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais.  Penderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.  Anogwyd yr ymgeisydd i ymddwyn yn gyfrifol a chymryd gofal gan nad oedd y 6 pwynt oedd ar ei thrwydded yn dod i ben hyd Ebrill 2023.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd a thystysgrif feddygol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y troseddau ar y cofnod DBS a'i amgylchiadau personol. Amlygodd ei fod wedi bod drwy gyfnod tywyll, anodd yn ei fywyd ond bellach wedi dod drwyddi.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymdrin â chwsmeriaid afresymol, anodd o fewn amgylchedd cerbyd cyfyng nododd bod sgwrsio, bod yn agored a delio gyda chwsmeriaid wedi bod yn rhan o'r gefnogaeth a dderbyniodd drwy sesiynau therapi. Ategodd bod y dystysgrif feddygol yn amlygu ei fod yn bodloni safonau meddygol

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS a ffurflen feddygol

- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn mis Ebrill 2013, cafwyd yr ymgeisydd yr ymgeisydd yn euog o drosedd o guro sydd yn groes i'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1998 (A.39). Derbyniodd rybudd cymunedol dan oruchwyliaeth, costau o £250 a chostau iawndal £150.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2013 yn drosedd o drais i bwrpas y Polisi a bod digon o amser wedi mynd heibio i'r trothwy tair blynedd ers i'r ymgeisydd gael ei ddyfarnu'n euog. Ni chafwyd unrhyw euogfarnau dilynol na blaenorol.

Ystyriwyd esboniadau'r ymgeisydd a'r rhesymau dros ei ymddygiad yn 2013 gan dderbyn bod ei amgylchiadau yn wahanol iawn erbyn hyn. Ystyriwyd y dystysgrif feddygol a oedd yn cadarnhau ei esboniad am ei gyflwr meddygol yn y gorffennol ac nad oedd gan y meddyg unrhyw bryderon. Roedd yr ymgeisydd hefyd yn bodloni'r meini prawf ffitrwydd meddygol i yrru ac wedi gweithio fel gyrrwr heb unrhyw broblemau.

Penderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :00pm a daeth i ben 15 :05pm

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 27-06-2022**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Edgar Owen ac Angela Russell

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd ag adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Is-bwyllgor i'r Swyddog Trwyddedu cadarnhawyd mai geiriad / dyfyniad o ddisgrifiad y Ddeddf yw 'rheoli cerbyd, ffôn symudol **ac ati'**

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir yr arnodiadau ar y drwydded ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd a'i fethiant o hysbysu'r Adran Drwyddedu am droseddau traffig difrifol ar ddau achlysur. Amlygodd bod yr ymgeisydd ar un o'r achlysuron, yn gofalu am ei dad ac felly, gyda phethau eraill ar ei feddwl, wedi llenwi'r ffurflen gais yn anghywir ac wedi methu a rhoi gwybod i'r Adran Trwyddedu o'i amgylchiadau. Ar achlysur arall, ei gynbartner oedd yn gyrru'r car ac nid oedd wedi diweddaru manylion ei gyfeiriad newydd na datgelu pwy oedd yn gyrru'r car i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.

Canmolwyd yr ymgeisydd am ei waith fel gyrrwr tacsi - nodwyd ei fod yn onest, yn gymwynasgar, yn barod i helpu bob amser ac yn boblogaidd gyda chwsmeriaid.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan gynrychiolydd yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn mis Gorffennaf 2021, derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb arnodedig ar ei drwydded gyrru am dorri gofynion y Ddeddf o ran 'rheoli cerbyd, ffôn symudol ac ati'

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae 2.3 yn nodi, at ddibenion y Polisi, gall "materion eraill i'w hystyried", gynnwys, ymhlith eraill, gollfarnau troseddol / moduro

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae MS90 (methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr ac ati). Mae paragraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod trosedd 2021 yn fater difrifol ond roeddynt yn fodlon bod cyfnod yr amser (6 mis) a nodir yn y Polisi lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o'r fath wedi mynd heibio ac nad oedd unrhyw droseddau pellach

Ystyriwyd methiant yr ymgeisydd i ddatgelu trosedd yn unol â gofynion y drwydded drwy fethu â chynnwys arnodiadau ar ei ffurflen gais na rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am yr arnodiadau a ddatgelwyd yn yr adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Derbyniwyd eglurhad yr ymgeisydd dros ddiffyg rhannu gwybodaeth oherwydd amgylchiadau personol anodd ar y pryd a bod rhywfaint o ddryswch yn ymwneud â chyflwyno dogfennau'r erlyniad yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi symud tŷ. Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn siomedig nad oedd y drosedd wedi ei datgelu ar y ffurflen gais presennol.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, ystyriwyd na fyddai'r diffyg yn cyfiawnhau gwrthod trwydded ar y sail yma yn unig ond bod methiant i ddatgelu gwybodaeth gywir a diweddar fel sy'n ofynnol gan y drwydded yn fater difrifol. Petai'r amgylchiadau yn cael eu hailadrodd yna byddai'r methiant hwn yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw ddilyniant i benderfyniad.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais. Penderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Anogwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i sicrhau bod ymgeiswyr i'r dyfodol yn gwirio a chymryd cyfrifoldeb am eu ffurflen gais a bod yr Adran Trwyddedu yn edrych ar drefniadau'r cwmni i'r dyfodol.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11 :30 a daeth i ben 12 :30

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 24 HYDREF 2022 |
| TEITL: | UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI |
| PWRPAS: | CYMERADWYO CYNNIG GAN Y DIWYDIANT TACSI I GODI’R UCHAFSWM PRISIAU |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae’r Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchafbris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i’r Sir . Mae’r ddeddf yn caniatáu darparu tabl prisiau, ac mae hyn ynghyd a’r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsi (taxi meter) yn caniatáu mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a godir ac i ddiogelu buddiannau’r cyhoedd.

1.2 Mae’n ofynnol fod unrhyw gais am newid yr uchafbris a godir yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant . Fe dderbyniwyd 5 cais yn ddiweddar gan Mr Trevor Roberts , Mr Colin Owen Hughie John Jones, Gareth Evans a Siôn Edwards sydd berchnogion cwmnïau tacsi - i adolygu’r prisiau. Fe yrrwyd cynnig manwl gan Mr Trevor Roberts yn unig; ac roedd yn cyflwyno'r cynnig ar ran ei hun ac 10 o gwmnïau tacsis eraill. Gweler yr atodiad i’r adroddiad hwn am gopïau llawn o’r cynigion a’r ohebiaeth a dderbyniwyd gan y diwydiant .

1.3 Nid yw’r uchafbris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat , a drefnir ymlaen llaw.

1.4 Fe gafwyd cais llwyddiannus i gynyddu’r uchafbris yn 2019 ar ôl 9 mlynedd o uchafrbris yn aros yr un fath , ac nid oes newid wedi bod ers hynny. Gweler atodiad 1 am dabl o’r uchafbrisiau presennol. Fe gynyddwyd yr uchafbris am y ddwy filltir gyntaf taith tacsi o £5 i £6 yn 2019; sydd yn gynnydd sylweddol oedd yn adlewyrch cyfartaledd costau chwyddiant dros y cyfnod. Roedd costau eraill fel costau tanwydd wedi aros yn weddol sefydlog dros yr un cyfnod.

## 2 FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR GOSTAU BUSNESAU TACSI

2.1 Oherwydd yr effaith negyddol a gafodd Pandemig Covid a’r cyfnodau clo ar y diwydiant tacsi, fe gofiwch i’r Pwyllgor hwn yn 2021 bleidlesio i beidio cynyddu prisau trwyddedau tacsis.

2.2 Ond, fe fydd pawb yn ymwybodol ein bod wedi bod mewn sefyllfa ddigynsail hefo’r sefyllfa economaidd yn y wlad dros y 6 mis diwethaf. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yng nghostau tanwydd am amryw resymau geo-wleidyddol (megis rhyfel yn yr Wcráin a phwysau ar y farchnad tanwydd wrth dod allan o’r Pandemig ) Mae’r rhagolygon yn nodi cynnydd sylweddol arall ar y gorwel mewn costau nwy a thrydan fydd yn effeithio ar bawb.

2.3 Mae’r cynnydd mewn costau tanwydd a chostau bwyd sylfaenol wedi bod yn gyson drwy gydol y flwyddyn hon, gyda’r sefyllfa yn ei dro yn cael effaith bellgyrhaeddol ar lefelau chwyddiant , a gyraeddodd gyfradd o 10.1% yn mis Gorffennaf 2022, ac mae’n debyg bydd y cyfradd wedi codi eto erbyn dyddiad y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei drafod gan y Pwyllgor

2.4 Mae’r cynnydd mwyaf sylweddol mewn chwyddiant ers 1982 wedi arwain at Fanc Lloegr yn ymateb i geisio rheoli chwyddiant drwy gynyddu cyfraddau llog.

2.5 Mae costau yswiriant priodol ar gyfer cerbydau trwyddedig yn uchel, ac wrth gwrs mae costau blynyddol ynghlwm a thrwyddedu cerbyd tacsi, a chostau bob tair blynedd ynghlwm a thrwyddedu gyrwyr.

## 3. CYNNIG Y DIWYDIANT AR GYFER UCHAFBRIS NEWYDD AR GYFER TEITHIAU CERBYD HACNI

3.1 Mae llawer o gynghorau wedi bod yn derbyn cynigion pendant yn ddiweddar gan y diwydiant tacsi i adolygu a chynyddu'r uchafbris mewn amrywiol ffyrdd. Mae yna gyfradd uchafbris penodol ar gyfer elfennau gwahanol; gan gynnwys cyfradd am daith 1 milltir a chyfradd gyffredinol lle mae taith yn 2 filltir neu fwy. Fe welir o'r tabl isod yr uchafbris sydd yn cael ei weithredu ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni dros 6 sir y Gogledd, ar hyn o bryd , ac fe nodir os yw'r uchafbrisiau wedi bod yn destun adolygiad diweddar .

**Tabl – pris cyfatebol cyfredol am 2 filltir o daith**

| | **Gwynedd cyfredol** | **Cyfartaledd cyfredol 6 sir** | **Môn** | **Conwy** | **Fflint** | **Dinbych** | **Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £6.00 | **£5.97** | £5.80 | £6.60 | £5.80 | £6.00 | £5.60 |
| Blwyddyn adolygu | 2019 | | 2017 | 2022 Cynnydd | 2022 Aros yr un fath | 2022 Cynnydd | 2011 |

3.2 Mae amryw o'r cwmnïau sydd wedi cyflwyno cynnig i godi uchafbris yn cynnig cynyddu'r gyfradd am y filltir gyntaf o £3.60 i £4.00. Mae'r cynnig yma yn ddealladwy; gan fod costau cerbyd a'r gyrrwr yn uwch ar gyfer siwrnai byr .

3.3 Mae'r pobl sydd yn defnyddio tacsis yn ystod y dydd ar gyfer siwrnai byr yn fwy tebygol o fod yn methu defnyddio ffyrdd eraill o deithio , ac yn bobl sydd yn fwy tebygol o fod yn oedrannus neu yn fregus. Barn yr Awdurdod Trwyddedu yw bod cynyddu uchafbris ar gyfer siwrnai byrion yn ystod y dydd yn cael effaith negyddol ar y boblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod yn ddifreintiedig , ac felly yn cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng costau byw presennol.

3.4 Fe ddefnyddiwyd costau cyfraddau chwyddiant Banc Lloegr i gyfrifo'r gyfradd uchafbris yn 2019; gyda chyfartaledd cyfradd chwyddiant rhwng 2011 a 2019 wedi ei ychwanegu at uchafbris taith dwy filltir neu trosodd.

3.5 Mae un cwmni tacsi yn gwneud y pwynt fod rhaid i gwmni ymrwymo i dalu'r isafswm cyfradd cyflog ( minimum wage) i'w gyrwyr wrth dderbyn cytundeb Cludiant ysgolion gyda'r Cyngor; a bod hyn yn anodd o dan yr amgylchiadau presenol ; heb allu codi mwy am deithiau mewn tacsi.

3.6 Gyda phrisiau chwyddiant a chostau byw mor eithriadol o uchel ar hyn o bryd ; mae angen ystyried opsiynau amgen o godi uchafbris fel ein bod yn cloriannu'r effaith y sefyllfa bresennol ar bawb; gan geisio sicrhau tegwch i'r diwydiant tacsi; a hefyd tegwch i ddefnyddwyr tacsis .

3.7 Mae rhai sydd wedi cyflwyno cynigion o'r diwydiant hefyd yn awgrymu y dylid edrych yn ofalus ar yr uchafbrisiau mewn perthynas â'r materion canlynol -

- teithiau tacis ar ol hanner nos;

- costau cludo bagiau /cases ychwanegol
- Costau glanhau tacsi pan mae cwsmeriaid yn gwneud llanast
- Cyflwyno tariff uwch ar gyfer teithiau lle mae rhwng 5 a 8 teithiwr mewn bws mini oherwydd fod costau ychwanegol o ran rhedeg tacsi bws mini; ac fod rhain fel arfer yn deithiau 'dewisol'
- Cyflwyno cyfradd uwch am y filltir gyntaf a theithiau byr yn hwyr yn y nos.

Gweler yr atodiad i'r adroddiad hwn am fanylion llawn y cynigion a gyflwynwyd.

3.4 Mae'n bwysig nodi nad oes rhaid i gwmni tacsi godi'r uchafbris am deithiau mewn cerbyd hacni. Mae llawer o gwmnïau yn dewis peidio; ac yn codi prisiau sydd yn is ac yn unol â'r hyn a ystyrir i fod yn gyfradd cystadleuol.

4. **CYNNIG YR AWDURDOD TRWYDDEDU**

4.1 O ystyried y ffactorau oll sydd yn bwysig i'r cyd-destun economaidd presenol - cynigir fod y prisiau yn cael eu cynyddu fel a ganlyn -

- Cadw cyfradd uchafbris taith un filltir a thaith dwy filltir a mwy yr un fath – gan fod y pris a godir ar hyn o bryd o gwmpas y cyfartaledd wrth gymharu gyda Cynghorau eraill y Gogledd, ac y byddai cynyddu'r cyfraddau sylfaennol ar gyfer teithiau byr yn anfantesio y mwyaf anghenus yn y gymdeithas
- Cynyddu uchafbris cludo bagiau ychwanegol yng nghist car o 30c yr eitem i 50c yr eitem
- Cynyddu cost valet glanhau o £45 i £120 i adlewyrchu costau glanhau proffesiynol cyfredol, ac yr amser nad yw y cerbyd ar gael i'w hurio.
- Cynyddu cost cyfradd hurio tacsi rhwng 00:00 a 07:00 o 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol i 60% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol o £4.50 i £4.80 y filltir.
- Creu 'tariff' newydd ar gyfer teithiau bws mini ar gyfer rhwng 5 ac 8 teithiwr - i £6.60 am siwrnai mwy na 2 filltir

**Tabl yn cymharu newidiadau arfaethedig gyda'r sefyllfa bresennol**

| **Uchafbris perthnasol** | **Cyfraddau presennol** | **Argymhelliad** |
|---|---|---|
| | | |
| lle mae'r daith yn llai na milltir | £3.60 | Dim newid |
| Lle mae'r daith yn fwy na milltir, am y filltir gyntaf | £3.00 | Dim newid |
| Creu 'tariff' ychwanegol ar gyfer teithiau mewn bws mini lle mae rhwng 5 ac 8 o deithwyr | £3.00 | £3.30 |
| Uchafbris cludo bagiau ychwanegol yn cist y cerbyd | 30c | 50c |
| Uchafbris cost 'valet' glanhau proffesiynol | £45 | £120 |
| Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan | 50% yn ychwanegol ar y gyfradd sylfaennol £4.50 | 60% yn ychwaegol i'r cyfradd sylfaennol £4.80 |

5. **YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT**

4.1 Os fydd y Pwyllgor hwn yn derbyn yr argymhelliad; fe fyddwn yn ymgynghori ar y cynnig am 14 diwrnod mewn papur lleol; gyda'r bwriad fod yr uchafbris newydd yn weithredol o'r dyddiad bydd y rhybudd yn dod i ben.

4.2 Os oes gwrthwynebiad i'r cynnig yn dod i law yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad; fe fydd yr argymhelliad yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn i sail y

gwrthwynebiad dderbyn ystyriaeth; ac ni fydd yn dod yn weithredol hyd nes y ceir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor .

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchafbris yn unol â'r argymhellion; neu yn cynnig cymeradwyaeth ar gyfer opsiynau eraill o godi uchafbris, ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni yn y Sir.

| **CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**<br><br>**PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI/HACKNEY CARRIAGE FARE**<br>yn weithredol trwy ardal y Cygnor o **9/9/2019**<br>*in operation throughout the area of the Council as from* **9/9/2019** | |
|---|---|
| **Milltiroedd / Mileage** | **Cost** |
| Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir<br>*If the distance does not exceed one mile for the whole distance* | **£3.60c/p** |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.00** |
| Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny<br>*For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Amser Disgwyl / Waiting Time** | |
| Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny<br>*For each period of 1 minute or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Taliadau Ychwanegol / Extra Charges** | |
| 1. Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan<br>*For hirings between midnight and 7:00a.m. on any day or at any time on Bank Holidays except Christmas Day and New Year's Day* | **50% o'r cyfradd dal uchod**<br><br>***50% of the above rates*** |
| 2. Dydd Nadolig a Dydd Calan<br>*Christmas Day and New Year's Day* | **100% o'r cyfradd dal uchod**<br>***100% of the above rates*** |
| 3. Am bob cês a bag yn ychwanegol or un cês a gludir to allan i'r caban teithwyr<br>*For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage* | **£0.30c/p** |
| 4. Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith<br>*For each person in excess of one of the whole journey* | **£0.40c/p** |
| 5. Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod<br>*Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats* | **£1.20c/p** |
| **Nodir: Fod dim tal i'w godi am gludo Ci Tywys**<br>**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs** | **£0** |
| 6. Baeuddu'r cerbyd<br>Soiling the vehicle | **£45** |

| Cyngor Gwynedd Council<br>Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices<br>Stryd y Jêl/Shirehall Street<br>Caernarfon<br>Gwynedd LL55 1SH | Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Amgylchedd/Head of Environment Department<br>Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services |
|---|---|

Yn unol ag adran 65 o'r Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 – mae Cyngor Gwynedd yn cyhoeddi y bwriad i amrywio prisiau cludo ar gyfer cerbydau hacni fel a ganlyn:

In accordance with Section 65 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 – Gwynedd Council hereby publish a proposed variation in hackney carriage fares as follows:

| | |
|---|---|
| **CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**<br><br>**PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI/HACKNEY CARRIAGE FARE 2022**<br>yn weithredol trwy ardal y Cyngor o DYDDIAD<br>*in operation throughout the area of the Council as from DATE* | |
| **Milltiroedd / Mileage** | **Cost** |
| Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir<br>*If the distance does not exceed one mile for the whole distance* | **£3.60c/p** |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.00** |
| Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny<br>*For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Amser Disgwyl / Waiting Time**<br><br>Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny<br>*For each period of 1 minute or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Milltiroedd - bws mini sy'n cario 5 i 8 teithiwr**<br>**Mileage – Minibus carrying 5 to 8 passengers**<br><br>Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.30** |
| **Taliadau Ychwanegol / Extra Charges** | |
| 1. Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan<br>*For hirings between midnight and 7:00a.m. on any day or at any time on Bank Holidays except Christmas Day and New Year's Day* | **60% o'r cyfradd dal uchod**<br><br>***60% of the above rates*** |
| 2. Dydd Nadolig a Dydd Calan<br>*Christmas Day and New Year's Day* | **100% o'r cyfradd dal uchod**<br>***100% of the above rates*** |
| 3. Am bob cês a bag yn ychwanegol or un cês a gludir to allan i'r caban teithwyr<br>*For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage* | **£0.50c/p** |
| 4. Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith<br>*For each person in excess of one of the whole journey* | **£0.40c/p** |
| 5. Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod<br>*Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats* | **£1.20c/p** |
| **Nodir: Fod dim tal i'w godi am gludo Ci Tywys**<br>**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs** | **£0** |
| 6. Baeuddu'r cerbyd<br>Soiling the vehicle | **£120** |

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd Council<br>Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices<br>Stryd y Jêl/Shirehall Street<br>Caernarfon<br>Gwynedd LL55 1SH | Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Amgylchedd/Head of Environment Department<br>Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services |

Unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad i'w wnedu yn ysgrifenedig i Gyngor Gwynedd drwy e bost at trwyddedu@gwynedd.llyw.cymruerbyn xx/xx/xxxx (14 diwrnod ar ol cyhoeddiad ) . Mae copi o'r rhybudd ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a gwefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru.

Any objections to the proposal must be made in writing to Gwynedd Council by e-mail to Licensing@gwynedd.llyw.cymru by the XX/XX/XXXX (14 days after publication). A copy of the notice is available at the Council Offices and the Council website for inspection www.gwynedd.llyw.cymru.

**From:** Hughie john Jones <
**Sent:** 15 June 2022 09:34
**To:** Robert Arthur Taylor (AMG) <robertarthurtaylor@gwynedd.llyw.cymru>
**Subject:** Re: As requested Diolch Bob

Bora da Bob,

Ebost I ofyn oes modd codi prisiau ar meter taxi, mae prisiau diesel wedi codi mor gymaint a mae angen codi y prisiau meter

On Thu, 12 May 2022, 13:26 Robert Arthur Taylor (AMG), <robertarthurtaylor@gwynedd.llyw.cymru> wrote:

**Adran Trwyddedu.**

**Cyngor Gwynedd Council.**

**Swyddfa'r Cyngor**

**Stryd y Jêl**

**Caernarfon**

**Gwynedd**

**LL55 1SH**

Neges Wreiddiol/Original Message-----
Oddi wrth: Gareth EVANS <[redacted]>
Anfonwyd: Dydd Gwener, 17 Mehefin 2022 11:52
At: Robert Arthur Taylor (AMG) <robertarthurtaylor@gwynedd.llyw.cymru>
Pwnc: Prisia tacsi

Unhryw obaith o Godi y meters i Fyny efo r prisia gwirion y diesel ma?

Diolch EVANS taxi Pwllheli Sent from my iPhone
--

Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd.

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council.

Oddi wrth: sion edwards <[redacted]
Anfonwyd: Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022 10:32
At: Robert Arthur Taylor (AMG) <robertarthurtaylor@gwynedd.llyw.cymru>
Pwnc:

Tacsi Gwynedd ltd
Unit 3
Darby Road
Cibyn Ind Est
Caernarfon
LL55 2BD

Hi
Oes posib edrych ar prisiau taxis wrth bod prisiau petrol a diesel yn codi yn ofnadwy o uchel. Toes yna ddim lle i chargio ceir trydan yn caernarfon na yn llawer o nunlle yn Gwynedd. Felly dani yn gorfod defnyddio ceir diesel a petrol a ma prisiau yn cynyddu pob dydd.
Diolch
Sion Edwards

**Oddi wrth:** Trev's Taxi <[redacted]>
**Anfonwyd:** 17 June 2022 16:14
**At:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** Gwynedd Taxi Tariff

Good afternoon,

I have spoken to other taxi companies in the county including:

Adam Griffiths - Snowdonia Taxis
Mark Elderkin - Marks Cabs Bangor
Michael Elderkin - Tacsi Twix
Paul Roberts - PR Snowdonia Taxis
Malcolm Williams - M&R Private Hire
Alwyn Samuel - Penrhyn Taxis
Kevin Williams - KC/DC Cabs
Endaf Parry - Tacsi Endaf
Phil Hanks - Tacsi Phil
Brian O'Shaughnessy - Town Cabs

We all feel that we are due an increase in the taxi tariff for Gwynedd taxis. Previously we waited 8 years for an increase. Due to the cost of living crisis and the rise in the fuel costs we have no alternative but to ask for an increase now.

When the current tariff rate was set the UK minimum wage was £8.21 per hour. This has now increased to £9.50 per hour. The average cost of a litre of diesel was 127.86 in September 2019. The current price is £193.9 at Texaco in Caernarfon. Both these factors should be taken into account. The inflation rate over the last few months has also been over 5% each month with experts predicting an inflation rate of over 10% later this year.

I have also spoken to other taxi companies from other areas in the UK about the rate they can charge for vehicles which can carry more than 4 passengers. It seems that a few licencing authorities allow Hackney carriages to charge time and a half or time and a quarter for use of vehicles which carry more than 4 passengers but only when 5 passengers or more are carried. I would like Gwynedd to consider this for taxis in our county.

The cost of a quality second-hand car is around £10,000. This would be for a 6 year old car with round 50,000 miles on the clock. The cost of a quality 8 seater with similar age and milage would be upwards of £15,000. The miles per gallon of the car would be considerably more than the 8 seater. I currently have a Skoda Octavia 4 seater (Purchased for £9,000) which returns 65 miles per gallon. I also have a Ford Tourneo 8 seater wheelchair access vehicle (purchased for £35,000) which returns 29 miles per gallon. Meaning that the running costs for an 8 seater is considerably more than a standard 4 seater car. The current option of adding £0.40 per passenger after the first passenger is confusing for the customers as this gets added to the final price after stopping the meter at the end of the journey. I have attached a copy of the taxi tariff for Ceredigion showing how they charge for vehicles carrying 5-8 passengers. Their tariff has not yet been reviewed since 2018. Their initial hire is for 1/2 a mile unlike Gwynedd which is the 1st mile.

Soiling charge is currently set at £45.00. The cost of a full valet including professional carpet and seat cleaning would be in the region of £70.00. This does not take into consideration the loss of earnings for the driver for the remainder of the days work. The current soiling charge in Denbighshire and Conwy councils is £100.

We would like to propose the following rates for taxis licenced in Gwynedd

Tariff 1

| | | |
|---|---|---|
| **All vehicles carrying up to 4 passengers** | | |
| 7.00am to 12.00midnight | First Mile | £4.00 |
| | Per mile thereafter | £3.30 |

Tariff 2

| | | |
|---|---|---|
| **All vehicles carrying up to 4 passengers** | | |
| 12.00 midnight to 7.00am | First Mile | £6.00 |
| | Per mile thereafter | £4.95 |

Tariff 3

| | | |
|---|---|---|
| **All vehicles carrying up to 4 passengers** | | |
| Christmas Day and New Years Day | First Mile | £8.00 |
| | Per Mile thereafter | £6.60 |

Tariff 2

| | | |
|---|---|---|
| **All vehicles carrying 5 or more passengers** | | |
| 7.00am to 12.00 midnight | First Mile | £6.00 |
| | Per Mile thereafter | £4.95 |

Tariff 3

| | | |
|---|---|---|
| **All vehicles carrying 5 or more passengers** | | |
| 12.00 midnight to 7.00am | First Mile | £8.00 |
| | Per Mile thereafter | £6.60 |

Tariff 4

| | | |
|---|---|---|
| **All vehicles carrying 5 or more passengers** | | |
| Christmas Day and New Years Day | First Mile | £12.00 |
| | Per Mile thereafter | £9.90 |

Soiling Charge £100

The minibuses would only be charging the higher tariff when carrying more than 5 passengers.

We would be grateful if you could look at this with urgency.

Thanking you in anticipation.

Trevor Roberts
Trev's Taxis Ltd

# Taxi Fares from 20th April 2018

**TAXIS**

| | | |
|---|---|---|
| **Tariff 1**<br>6.00am to 9.00pm | First ½ mile<br>Every 1/10 mile thereafter | £2.91<br>£0.17 |
| **Tariff 2**<br>9.00pm to 12 midnight<br>Bank Holidays 6am to 12midnight | First ½ mile<br>Every 1/10 mile thereafter | £3.33<br>£0.20 |
| **Tariff 3**<br>12 midnight to 6.00am | First ½ mile<br>Every 1/10 mile thereafter | £3.33<br>£0.23 |
| **Tariff 4**<br>Christmas Day &<br>New Years Day | First ½ mile<br>Every 1/10 mile thereafter | £5.81<br>£0.32 |
| Each additional passenger in excess of the original hirer Per journey | | £0.21 |

**MINI BUSES (5-8 Passengers)**

| | | |
|---|---|---|
| **Tariff 5**<br>6.00am to 9.00pm<br>Sunday to Saturday | First ½ of a mile<br>Every 1/10 mile thereafter | £3.67<br>£0.26 |
| **Tariff 6**<br>9.00pm to 6.00am<br>Sunday to Saturday<br>& Bank Holiday (all day) | First ½ of a mile<br>Every 1/10 mile thereafter | £4.79<br>£0.32 |
| **Tariff 7**<br>Christmas Day &<br>New Years Day | First ½ of a mile<br>Every 1/10 mile thereafter | £6.66<br>£0.44 |

**In all instances extras may be charged up to the following maximums**

| | |
|---|---|
| Waiting time per minute or part thereof | £0.18 |
| Cases | £0.53 eac |
| Trunks | £1.08 eac |
| Fouling | £53.81 |

ALUN WILLIAMS
CORPORATE LEAD OFFICER POLICY AND PERFORMANCE
NEUADD CYNGOR CEREDIGION
PENMORFA, ABERAERON
SA46 0PA
01545 570881

# Eitem 7

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 24 Hydref 2022 |
| TEITL: | Adolygiad o Ffioedd Trwyddedu Sefydliadau Rhyw |
| PWRPAS: | CYMERADWYO FFIOEDD AR GYFER TRWYDDEDU A RHEOLEIDDIO SEFYDLIADAU RHYW |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

**1. GWYBODAETH GEFNDIROL**

1.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu sy'n dymuno rheoleiddio sefydliadau rhyw yn eu hardal fabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddu a Phlismona 2009 ("Deddf 2009").

1.2 Mae mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf 1982 yn ddewisol, ac mae'n digwydd fel arfer pan gyflwynir hysbysiad o fwriad i agor busnes o'r fath am y tro cyntaf. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, yn dilyn proses ymgynghori, a phenderfyniad y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2021; bod y darpariaethau hyn wedi'u mabwysiadu gan y pwyllgor hwn ac wedi dod yn weithredol ar 6 Rhagfyr 2021.

1.3 Mabwysiadwyd polisi a threfn drwyddedu ar gyfer y sir gyfan; sy'n caniatáu i'r cyngor godi ffi am drwyddedau sefydliad rhyw. Mae ffioedd trwyddedu yn cael eu hadolygu'n flynyddol; a rhaid i'r ffi fod yn ddigon i alluogi i'r Cyngor adennill y costau.

1.4 Dirprwywyd y grym i osod ffioedd a diwygio amodau trwydded gan y cyngor llawn i'r Pwyllgor hwn ar y 7fed o Hydref 2021.

1.5 Rhaid i ffioedd fod yn rhesymol ac yn gymesur â chost y prosesau trwyddedu, sy'n cynnwys gweinyddu, yn ogystal â chynnal arolygiadau cydymffurfio. Ni ellir defnyddio ffioedd i wneud elw na gweithredu fel rhwystr economaidd i atal rhai mathau o fusnesau rhag gweithredu yn yr ardal. Mae'r egwyddorion sy'n llywodraethu pennu ffioedd ar gyfer trwyddedau a brosesir wedi'u nodi mewn deddfwriaeth a chanllawiau fel a ganlyn-

- Y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Ewropeaidd (Erthygl 12.2)
- Canllaw i Awdurdodau Lleol ar Reoliadau Darpariaeth Gwasanaethau 2009
- Cyfraith Achos- Hemmings -v- Westminster City Council

1.6 Cymeradwywyd ffi ar gyfer trwyddedu siopau rhyw yn benodol ar yr adeg y daeth y drefn drwyddedu yn weithredol ar y 6ed o Ragfyr 2021. Fodd bynnag, mae ymarferiad costau pellach wedi'i gynnal ar gais am drwydded siop ryw; sydd wedi rhoi cyfle i'r gwasanaeth ystyried y gwir gostau yn hytrach na'r amcan gostau neu gostau dybiedig. Mae ffi wedi'i chyfrifo wedyn ar gyfer prosesu a gweinyddu trwydded eiddo adloniant rhywiol hefyd. Bydd yr holl ffioedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diwygio yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu'r gwir gostau i'r Cyngor. Nid oes gan y sir unrhyw sefydliadau o'r fath. Mae trwyddedau eiddo adloniant rhywiol yn parhau i fod yn weithredol am 12 mis.

1.7 Gan nad oes ffi o'r fath wedi'i mabwysiadu a'i chymeradwyo o'r blaen ar gyfer eiddo adloniant rhywiol; mae'r costau i'r cyngor o roi'r broses drwyddedu ar waith wedi'u cyfrifo ac mae'r ffioedd arfaethedig fel a ganlyn-

| TRWYDDED | FFI |
|---|---|
| | |
| Eiddo adloniant rhywiol – cais newydd | £2,109 |
| Eiddo adloniant rhywiol – cais adnewyddu | £2,109 |
| Trwydded siop rhyw – cais newydd | £1,184 |
| Trwydded siop rhyw – cais adnewyddu | £1,184 |

**2. Lefelau ffioedd cymharol – Awdurdodau eraill**

2.1 Oherwydd fod disgwyl i bob Awdurdod Trwyddedu bennu lefel ffioedd yn unol a'r hyn sy'n briodol i sicrhau adennill costau ; mae ffioedd pob awdurdod trwyddedu yn wahanol; ac ni ddylid defnyddio ffioedd cymharol awdurdodau eraill fel sail pennu ffi. Mae gwir gostau yn amrywio o sir i sir, oherwydd nifer o ffactorau - ond er pwrpas rhoi syniad cyffredinol , mae ffioedd trwydded sefydliadau rhyw yn amrywio rhwng £989 am drwydded yn Sir Fflint, £1655 yng Nghonwy a £6,250 yn sir Ddinbych.

**3. ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn:

- Cymeradwyo gosod lefel y ffioedd fel y nodir, sy'n adlewyrchu gweinyddu ac asesu cydymffurfiaeth a phrosesu ceisiadau am drwyddedau sefydliadau rhyw,
- cymeradwyo adolygiad blynyddol o'r ffioedd hynny.